Gwasanaethau i gyd am 10.30 os na nodir yn wahanol

Ebrill	3 – Gweinidog - Cymundeb
	10 - Cwrdd Undebol y Gwanwyn Parchg Ddr Noel Davies *Casgliad at yr Adeiladau*
	17 - Gweinidog Cwrdd Eglwys
	24- Mr Emlyn Davies
Mai	1 - Cymundeb - Gweinidog
	8 Cwrdd Undebol Noddfa Parchg Ddr Densil Morgan Llanbed
	15 - Gweinidog — Oedfa Deulu yn cynnwys Neges Ewyllys Da Ieuenctid yr Urdd 6.00 y h - Gwasanaeth Cymorth Cristnogol
	22 – Parchg Derwyn Morris Jones
	29 - Gweinidog
Mehefin	5 - Cymundeb - Gweinidog
	12 – Gwasanaeth Aelodau
	19 - Parchg Dafydd Henri Edwards
	26 – Parchg Iwan Rhys Jones

Tabernacl Porthcawl

Ebrill 2016

IESU YN FYW NEU YN FARW?
(Adroddiad oddi wrth ein gohebydd yn Jerwsalem,)

Dyna'r cwestiwn sydd ar wefusau pawb yn Jerwsalem. Mae ffrindiau Iesu o Nasareth neu 'Brenin yr Iddewon' fel y gelwir ef, yn honni iddyn nhw weld eu 'Meistr' yn fyw ac yn iach tri diwrnod wedi ei groeshoeliad cyhoeddus y tu fas i waliau'r ddinas. Ond dywedodd y milwyr Rhufeinig a oedd yn gwarchod y bedd lle'r claddwyd Iesu o Nasareth, "daeth ei ddisgyblion yng nghanol y nos a'i ddwyn e' tra ro'n ni'n cysgu."

Ond i mi nid yw'r stori yna'n dderbyniol, er mai dyna'r adroddiad swyddogol ddaeth oddi wrth y prif offeiriad a'r henuriaid.

Gallaf ddweud hyn wrthych chi, fe aeth y prif offeiriad a'r Phariseaid at Herod, y Llywodraethwr Rhufeinig ac adrodd wrtho beth ddywedodd Iesu: "Ymhen tridiau fe atgyfodaf." Dywedodd Peilat wrthynt am wneud y bedd mor ddiogel â'n bosibl, felly rholiodd y milwyr garreg enfawr dros geg y bedd a'i selio, gan warchod y bedd drwy'r nos.

Yn ôl dilynwyr Iesu aeth Mair Magdalen a gwragedd eraill, i'r bedd yn gynnar bore Sul i eneinio corff y dyn marw a gweld bod y garreg wedi symud i un ochr ac angel y tu mewn i'r bedd. Fe ddywedodd yr angel bod Iesu wedi atgyfodi oddi wrth y meirw. Beth bynnag yw'r gwirionedd, mae'n ffaith bod y corff wedi mynd a'r garreg wedi symud. Cewch wybod beth fydd symudiadau'r disgyblion o hyn ymlaen, yn y cyhoeddiad nesaf, felly, GWYLIWCH Y GOFOD!

Golygyddol
Rhyfeddol!

Roedd disgyblion Iesu Grist wedi eu synnu a'u syfrdanu wrth ddarganfod y bedd gwag. Pam? A oedd hi'n bosibl nad oedden nhw'n cofio geiriau'r Iesu? Neu efallai nad oedden nhw'n 'i gredu e? Ond roedd yr awdurdodau Iddewig yn bendant wedi cofio ei eiriau. Tybed pam gyhoeddodd y disgyblion bod Iesu'n fyw a hwythau'n gwybod ei fod wedi marw? Fe gostiodd yn ddrud iddyn nhw. Cawsant eu gwawdio, a'u gwrthod a lladdwyd rhai ohonynt. Ac eto roedd yna bobl yn barod i'w credu. Yr unig esboniad sy'n gwneud unrhyw synnwyr yw eu bod yn dweud y gwir, roedd Iesu'n fyw ac yn dal yn fyw a gyda ni heddi.

Gadewch i ni felly ddiolch i Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist! Oherwydd trwy ei drugaredd a'i ras, rhoddodd i ni fywyd newydd trwy atgyfodi Iesu Grist o farw'n fyw. Llenwir ni felly â gobaith byw, gan edrych ymlaen at feddiannu'r holl fendithion mae Duw yn addo ac yn cadw i'w blant, sydd wrth gwrs yn dechrau y funud yr edifeirwn am ein pechodau a derbyn Iesu i'n bywydau fel Arglwydd a Gwaredwr. Ond wedi i ni ymadael a'r byd hwn, caiff ein henaid fynd at Iesu ym mharadwys, ac ar ddiwedd amser pan ddaw Iesu yn ôl i'r byd, cawn ninnau gorff atgyfodedig newydd a chael byw bywyd newydd bendigedig yng nghwmni Duw ac Iesu yn y - "Nef newydd a daear newydd."

Dyma yw gwir ystyr y Pasg, felly gaf i ddymuno bendithion lu y Pasg i chi a'ch teuluoedd.

Rosan.

Annwyl Ffrindiau
Dyma gyfle arall i'ch cyfarch chi fel eich gweinidog a'ch ffrind wrth i mi ddechrau fy mhedwaredd flwyddyn ar ddeg yn eich plith! Mae'r amser yn hedfan!

you have food, clothes and a roof over your head, you're richer than 75 percent of the world's inhabitants. Actually your dustbin eats better than they do.

If you have money in the bank, you are one of the world's top 8 per cent. If you own a Bible, you're better off than the 1.5 billion people who have never seen one. If you can read this, you are ahead of one-third of people on the planet who are illiterate.

Mae'n helpu o dro i dro, i gael ein hatgoffa o'r brwydrau mae eraill yn eu gwynebu ac i roi ein conan dibwys ni mewn persbectif.

Cynhelir Wythnos Cymorth Cristnogol eleni rhwng y 15fed a'r 21ain o Fai ac fe gawn hanes Morsheda mam ifanc i bedwar o blant sy'n byw yn Bangladesh. Does ganddi ddim tir, bach iawn o arian ac eiddo. Maent yn byw wrth ymyl yr afon Brahmaputra, lle mae llifogydd yn rhan o fywyd. Sied un ystafell allan o haearn rhychog yw'r tŷ mae'r teulu cyfan yn byw ynddo, a hwnnw wedi mynd dan ddŵr pedair gwaith!

Bydd pob £250 a godir eleni yn ddigon i godi'r tir o'i hamgylch 8 troedfedd a'i wneud yn saff yn erbyn y llifogydd a hefyd ei galluogi i brynu gafr, hadau ac abwydfa (wormery) er mwyn gwneud compost a dechrau bywyd newydd a gwell.

Llynedd gwelwyd a chlywyd am bobl dros y wlad yn ymateb i'r her trwy gynnal nifer fawr o weithgareddau codi arian, rhai traddodiadol ac eraill braidd yn bisâr. Rodd hanesion sut y defnyddiwyd yr arian a gasglwyd llynedd yn cyffwrdd i'r byw ac yn ein hatgoffa ni ein bod yn cymryd pethe'n ganiataol.

Does gen i ddim amheuaeth, y bydd, trwy haelioni pobl eleni eto, miliynau o bunnoedd yn cael eu codi a bywydau miloedd yn cael eu hachub a'u newid. Bydd y gwasanaeth ar gyfer eglwysi Porthcawl yn y Tabernacl nos Sul y 15fed o Fai am 6 o'r gloch, plîs dewch i gefnogi.

DATHLU CANMLWYDDIANT EGLWYS Y TABERNACL.
Byddwn yn dathlu ar ddydd Sul y 18fed o Fedi, gyda gwasanaeth yn y bore, paned a lluniaeth ysgafn yn y Neuadd a Cymanfa Fodern yn y prynhawn. Rydym yn mynd ati i ddiweddaru ac ychwanegu at lyfryn a gyhoeddodd y diweddar Barchg W Rhys Nicholas ar yr hanner canmlwyddiant.

Os oes gennych unrhyw gyfraniad boed yn atgof, llun ac ati byddwn yn falch o'u derbyn i'w cynnwys yn llyfryn y canmlwyddiant. Nodwch y dyddiad yn eich dyddiadur!

EGLWYSI YNGHYD YM MHORTHCAWL
Wythnos Cymorth Cristnogol Mai 15fed – 21ain Yr wythnos yn dechrau gyda Gwasanaeth yn y Tabernacl nos Sul 15fed am 6.00.y.h. dan arweiniad y Parchg Rosan Saunders. Bydd cyfle i gymdeithasu dros baned yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

Bore Coffi Cymorth Cristnogol dydd Gwener 20fed yn Trinity o 10.00 – 12.00.

CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG
Cyfarfodydd Eleni : Ebrill 12ed - Penrhys
Gorff 10 - Sul y Cyfundeb
Hyd 12 - Sardis, Pontypridd
Croeso i bawb fynychu'r cyfarfodydd

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL
Myfyriwch dros y sylwadau pryfoclyd yma allan o gylchgrawn.
"If you woke up this morning, you're ahead of the one million who didn't survive the week. If you can sit down, read the paper and drink a cup of coffee, you're better off than the 500 million men, women and children around the world who are currently experiencing the horrors of war, the loneliness of imprisonment, the agony of torture or the pangs of starvation.

If you can attend church without threat, you've a freedom envied by two billion others who've never been inside one. If

Wedi'r cyfnod gwlyb a gwyntog diweddar, braf yw cael mwynhau yr heulwen hyfryd a holl arwyddion byd natur sy'n dweud bod y Gwanwyn wedi cyrraedd.

Rwy'n ysgrifennu'r cylchlythyr hwn ar y diwrnod mae'r newyddiaduron a'r gwleidyddion i gyd yn trafod goblygiadau Cyllid y Canghellor, ychydig o newyddion positif, o'r diwedd i nifer o bobl ond tipyn o ffordd gyda'r economi i ddod nôl ar drac.

Ond hefyd mae ffrae wedi codi rhwng Llafur a Phlaid Cymru wrth i aelodau'r Senedd ddechrau paratoi ar gyfer yr Etholiadau ym Mis Mai.
Unwaith eto egni yn cael ei wastraffu ar gweryla yn lle sortio allan problemau'r wlad yn enwedig cyflwr yr NHS yng Nghymru, sydd byth a beunydd yn gorfod ymddiheuro am restri aros, a marwolaethau diangen.

Bu lot fawr o drafod ar Taro'r Post heddi ynglŷn â'r ffrae, gyda nifer fawr o wrandawyr yn barod i rannu eu barn ac fe dynnodd un gwrandäwr ein sylw at y ffaith y bu rhaid iddo aros blwyddyn! er mwyn cael apwyntiad i weld arbenigwr croen a medde fe, 'mae'n hen bryd iddyn nhw dyfu lan, maent yn ymddwyn fel plant, mae angen iddynt ganolbwyntio ar bethau o bwys!!'

Bydd rhaid i ni gyd hefyd, ganolbwyntio ar bethau o bwys a meddwl o ddifrif ynglŷn â dyfodol yr eglwys hon. Plîs gweddïwch yn ddwys i Dduw am arweiniad a dewch, bawb, i'r Cwrdd Eglwys ar y 17eg o Ebrill.

CYDYMDEIMLO
Unwaith eto, mae'r eglwys wedi colli aelod ffyddlon yn dilyn marwolaeth ddisymwth Rowena Millward. Cydymdeimlwn yn ddwys gydag Ian ac Alan a'u teuluoedd yn eu hiraeth a'u galar.

Cydymdeimlwn hefyd gyda Meirion ac Ann Sewell yn dilyn marwolaeth eu merch Helen wedi cyfnod byr o salwch. Cofiwn hefyd am briod Helen, Nigel a'r tri mab Aled, Arwel a Geraint yn eu galar.

Cofiwn am Mabel Winterburn yn ei cholled o fab yng nghyfraith ac yntau mor ifanc. Hefyd Chris a Ffion Margetson yn eu colled enfawr hwythau yn dilyn marwolaeth annisgwyl Peter a fu mor gefnogol i ni fel eglwys.

Bydded i Dduw gysuro a nerthu y teuluoedd yn eu galar a'u hiraeth.

YSBYTY
Wedi bod yn yr ysbyty dros y misoedd diwetha' mae Eirwen Evans, Colin Lewis a Marina Davies. Mae'r tri yn araf gryfhau. Cofiwn hefyd am rai o'n cyd aelodau a ffrindiau sydd yn gwynebu adegau anodd a phryderus ynghlyn a'u hiechyd. Hefyd rheini sydd oherwydd afiechyd a llesgedd yn methu mynchu oedfaon bellach sef Jessie Gravelle, Mair Davies, Elfed Morgan, Barbara Jones a Heulwen Pearce. Cofiwn amdanynt yn ein gweddïau.

RHODDION
Diolch i deulu Islwyn Roberts am eu rhodd o £50 i'r capel er cof amdano.

LLONGYFARCHIADAU
I Barbara Jones ar enedigaeth wyres fach Alice Lily merch i Ann a Carl a chwaer i Sam.

I Donald Jones ar ddod yn hen ddadcu unwaith eto ar enedigaeth William mab i Tim a Jo a brawd i Libby.

I Colin a Janet Lewis ar ddathlu Penblwydd Priodas Aur. Bendithion lu i'r teuluoedd yn eu llawenydd a'u dathlu

Dymuniadau da i Marian Roberts ar ddathlu pen-blwydd yn 80 oed.

Dyma Marian yng nghwmni ei merch Eiry.

CWRDD EGLWYS/DIACONIAID NEWYDD.
Ar y 17eg o Ebrill cynhelir Cwrdd Eglwys yn y Neuadd er mwyn cyhoeddi enwau'r diaconiaid a enwebwyd a thrafod y ffordd ymlaen i'r eglwys. Mae hwn yn gyfarfod pwysig iawn, yn ymwneud a dyfodol yr eglwys yn y Tabernacl, felly aelodau a ffrindiau, plîs dewch, byddwn yn falch o'ch cefnogaeth.

IEUENCTID
Pob dymuniad da i ieuenctid yr eglwys yn eu gwahanol arholiadau, a diolch iddynt ac i aelodau o Adran/Aelwyd Porthcawl am eu cyfraniad gwerthfawr i Oedfa Deulu Sul y Parg. Rym ni'n gwerthfawrogi'n fawr eu donaiu ac ymroddiad eu harweindyddion Carys Evans, Rhiannon Dixon, Llinos Swain a Lisa Wilson.